Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 18.12.2020

## Cyfyngiadau rhybudd lefel pedwar ar draws Cymru o 6:00pm 25 Rhagfyr 2020

Bydd Cymru yn symud i lefel rhybudd pedwar – y lefel uchaf – am 6:00pm Dydd Nadolig.

- Bydd rhaid i fusnesau lletygarwch, pob busnes manwerthu nad yw'n hanfodol, gwasanaethau cysylltiad agos a chanolfannau hamdden a ffitrwydd gau.

- Bydd cyfyngiadau tynnach ar deithio, cymysgu rhwng aelwydydd, gofynion i aros gartref a llety gwyliau yn gymwys o 28 Rhagfyr 2020 ymlaen, ar ôl y cyfnod o bum diwrnod adeg y Nadolig.

Mae datganiad ysgrifenedig wedi ei ryddhau gan Prif Weinidog Cymru heddiw, ewch i:

https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-cyflwyno-rheoliadau-diogelu-iechyd-cyfyngiadau-coronafeirws-rhif-5-cymru

## Cymorth ychwanegol mewn ymateb i gyfyngiadau newydd

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi y bydd £110m o gymorth ariannol ychwanegol i gefnogi busnesau yr effeithiwyd arnynt gan y cyfyngiadau rhybudd lefel pedwar, fydd yn dod i rym o 6:00pm at 25 Rhagfyr 2020.

I ddarllen y cyhoeddiad, ewch i:

http://bit.ly/2WpCjEY

Byddwn yn rhoi gwybod i chi pan fydd mwy o wybodaeth ar gael.

Gall busnesau sy'n cael eu heffeithio'n uniongyrchol gan y cyfyngiadau ar leoliadau lletygarwch, celfyddydol ac adloniant ac atyniadau dan do ac awyr agored, a gyflwynwyd yn gynharach ym mis Rhagfyr, eisoes ddechrau cael cymorth. Am fwy o wybodaeth ewch i:

https://bit.ly/CronCyfRhag2020

## Ymestyn y Cynllun Cadw Swyddi (Ffyrlo) at Ebrill 2021

Ddoe (17 Rhagfyr 2020) mi wnaeth Canghellor y DU gyhoeddi bod y cynllun ffyrlo yn cael ei ymestyn a bydd Llywodraeth y DU yn parhau i dalu 80% o gyflogau gweithwyr am oriau heb eu gweithio tan ddiwedd Ebrill 2021. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

http://bit.ly/3p1vk1l

## Bargen Twf Gogledd Cymru wedi ei arwyddo

Bydd miloedd o swyddi'n cael eu creu a rhoddir hwb o £1bn i economi'r rhanbarth bellach bod Bargen Twf arloesol Gogledd Cymru wedi'i llofnodi gan Lywodraethau Cymru a'r DU ynghyd ag aelodau o Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Ewch i:

http://bit.ly/3r2T1YZ

## Annog siopa'n lleol yng Ngwynedd y Nadolig hwn

Mae Cyngor Gwynedd yn cynnal ymgyrch ar y gwefannau cymdeithasol yn annog pobl i gefnogi busnesau lleol y Nadolig hwn. Os ydych yn hyrwyddo eich cynnyrch a chynigion ar Facebook, gallwch rannu eich post drwy tagio ni ar:

https://bit.ly/PrynuLleolGwyneddBuyLocal

Edrychwch ar y neges Nadolig ar:

https://bit.ly/FidioDoligPrynuLleol

Fel rhan o'r ymgyrch, bydd gwybodaeth am lu o fusnesau lleol i'w gweld ar y wefan isod:

https://bit.ly/prynulleol2020

Petai busnes am gael ei ychwanegu i'r rhestr ar y wefan yma, gellir cysylltu â:

twristiaeth@gwynedd.llyw.cymru

## Brexit: Diwedd Cyfnod Pontio'r UE

Gadawodd y DU yr UE ar 31 Ionawr 2020 ac mae wedi bod mewn cyfnod pontio a fydd yn dod i ben ar 31 Rhagfyr 2020. Yn ystod y cyfnod pontio, mae rhan fwyaf o reolau a threfniadau masnachu presennol yr UE wedi aros ar waith heb unrhyw newidiadau sylweddol yn y rhan fwyaf o ardaloedd. Fodd bynnag, mae diwedd y cyfnod pontio yn prysur agosáu a bydd hyn yn golygu newidiadau i'r rheolau presennol ar fasnachu, yn ogystal â'r hawl i deithio heb fisâu i wledydd eraill yr UE. Dyma wybodaeth gan Llywodraeth DU all fod o gymorth i chi:

- Marciau masnach a Dynodiadau Daearyddol ar ôl 1 Ionawr 2021

Canllawiau i fusnesau a sefydliadau ar y berthynas rhwng marciau masnach ac dynodiadau daearyddol ar ddiwedd y cyfnod pontio:

http://bit.ly/37sCZ2O

- Deddfwriaeth pontio Tollau Tramor, TAW a Chartref y DU o 1 Ionawr 2021

Mae'r casgliad hwn yn dwyn ynghyd ddeddfwriaeth Tollau Tramor, TAW a Chartref yr UE a hysbysiadau Tollau Tramor sydd â grym cyfreithiol sy'n berthnasol i bontio'r DU.

http://bit.ly/37sSiZ6

- Symudiadau a gweithdrefnau parhaus y tollau ar ddiwedd y cyfnod pontio

Darganfyddwch beth i'w wneud os ydych yn symud nwyddau neu os oes gennych nwyddau mewn gweithdrefnau tollau ar ddiwedd y cyfnod pontio.

http://bit.ly/3nIrZnm

- Atal neu leihau'r Doll Tollau ar gyfer Tariff Masnach y DU o 1 Ionawr 2021

Dysgwch am Atal dros dro Tariff Masnach y DU neu leihau'r Ddyletswydd Tollau o 1 Ionawr 2021

http://bit.ly/3mv6PYA

Mae gwybodaeth cynhwysfawr ar gyfer nifer o sectorau sydd angen paratoi ar gyfer diwedd y cyfnod pontio wrth i ni adael yr UE ddiwedd y flwyddyn i'w gael ar Porth Cyfnod Pontio'r UE Busnes Cymru. Ewch i:

https://businesswales.gov.wales/eu-transition-portal/cy

- Porthladd Caergybi: cwestiynau cyffredin

Am y canllawiau ar gyfer Porthladd Caergybi ar ddiwedd cyfnod pontio'r UE ar 1 Ionawr 2021, ewch i.

https://llyw.cymru/porthladd-caergybi-cwestiynau-cyffredin

# Cyflymu Cymru i Fusnesau: Cymorth Digidol 2021

Rhowch hwb cychwynnol i'ch busnes yn y Flwyddyn Newydd gyda chymorth digidol am ddim. Bydd Cyflymu Cymru i Fusnesau yn darparu cyngor digidol, adolygiad gwefan ac amrywiaeth o weminarau – i gyd am ddim – i'ch helpu i uwchsgilio yn y Flwyddyn Newydd a pharatoi eich busnes ar gyfer y flwyddyn i ddod. Ewch i:

https://www.businesswales.gov.wales/superfastbusinesswales/cy/sut-y-gallwn-ni-helpu

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os oes gennych gwestiwn neu angen cyngor ebostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru